


# Ceramic Series

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE No. 28

## Richard Batterham — Country Potter



Photos: Keith Morris.

The first time I visited Richard Batterham and saw his pottery in the Dorset village of Durweston, was twenty years ago: the pottery had recently been built opposite the house and the three chamber oil fired climbing kiln (with a final fourth chamber for biscuit) was yielding what have become characteristic Batterham pots: that is a range of pieces, intended for use in the home, of high-fired reduced stonewares, thrown and turned on the wheel. The glazes are mostly matt or semi-matt celadons some derived from simple combinations of wood ash and clay, which during the firing become a part of the surface of the clay rather than form an obscuring coat. The glazes, quiet and understated, have the effect of adding subtle colour often with iron specs, which enhance and reveal form. Decoration, usually by incising or faceting is minimal.

Visiting the pottery today reveals deep and subtle rather than spectacular changes: forms have clarified, new ones have been added in particular a range of tall footed bowls based on the chalice; more than ever there is a sense of total conviction in the pots themselves, in the way they are made and sold, and the purpose for which they are intended. Outwardly the pottery remains much as before; the spaces are crowded with pots, large jars three foot tall stand waiting to be fired, glazed pieces wait to be sorted and ground, there are orders to be collected and finished pots are displayed on shelves for customers to browse at leisure. The kiln dominates, its rounded roof and its chambers rise confident and majestically, surrounded by assorted kiln shelves, props and the paraphernalia of the oil firing. The original kiln was based on the usual Korean climbing kiln he

was familiar with from the one built in the 1920s by Bernard Leach at St. Ives; since then it has been enlarged and each chamber some 4' 6" tall and over 6' wide on the inside accommodates the output of this prolific potter. Its four to six firings a year well suits his working pace.

Though clearly in the tradition of the country potter, Batterham is not a traditional potter; his pots are too much rooted in our own times, and while they call on a wide range of historical references, they are completely 'modern' in feel, reflecting the complexities of contemporary life rather than an imagined rural idyll. There is a minimum of equipment and a determination to prepare clays by the long slow wet method rather than take any short cuts. A major nod towards mechanical help is the use of oil to fire the kiln and the electric blunger and pugmill.

In many aspects his method of working reflects those experienced during his period of

18 months spent as an apprentice at the Leach Pottery. At Bryaston School he learnt pottery from the sculptor Donald Potter, not as a craft based art, but as an aspect of sculpture, making pots but with no production concerns. An early interest in becoming a gardener was abandoned and pottery took its place — 'If I became a gardener I knew I would be unlikely to make pots: whereas if I became a potter I could also be a good gardener' said Batterham.

At the Leach pottery, with the two or three other apprentices, amongst whom was Atusya, son of Hamada there was little direct teaching; this came more from observation and absorption; already able to throw a bit, he made some of the easier shapes of the Leach Standard Ware on the kick wheel and helped to do all the jobs in the pottery. From St. Ives with his wife Dinah, who was also at the pottery, he moved to Durweston, two miles from Blandford Forum to set up his own pottery. He got a local carpenter to build his wheel which was based on the Japanese model he had seen and liked used by Atusya at St. Ives. Like a continental wheel this is kicked on the fly wheel, but is 'suspended' on a stationary spindle, and has no water tray. Having learnt to throw the English way on a side-kick wheel and with plenty of water, his technique had to be re-thought and the making process re-learned. It could be that this economic use of energy and limited use of slurry to lubricate the clay extended into his pots, their direct and uncomplicated shapes have an uncluttered boldness and clarity, with little fuss. The same wheel, carefully tended and repaired is still in use today and sits alongside a smaller version used in the past by his children. Wooden batts are used for the larger pots, and enable the throwing level to be heightened on a clay chuck for large wide bowls. In the throwing room a large dish, some 30" across, sits propped on a shelf against the wall. It is something of a 'trophy' (for it is cracked) being thrown from 35lbs. of clay — no mean feat on a modest sized kick wheel, but clear in concept and handsome in the deceptive simplicity of its form. It is a pot Batterham preferred to keep rather than sell as a second.

A strong sense of rhythm pervades the workshop and the pots, which extends into the life of the potter. The clay, a blend of two ball clays and a small quantity of feldspar, is mixed wet in the blunger, put in outdoor troughs to become plastic, put through the pug then stored. The longer it is kept the better it gets. Old clay is pugged with new and the mix 'like sherry' gets better and better all the time. Experiments with porcelain pieces shown in his recent exhibition at Con-

temporary Applied Arts yielded a refinement of forms with no iron specking: these Batterham enjoyed but is not yet committed to. To mix the porcelain (he would not, he insisted, use a commercial blend) the machinery must be thoroughly cleaned and is, he said, quite a performance. For the saltglazed pots, for which he built a small down draught kiln, the regular stoneware body can be used. An iron-bearing slip gives a particularly successful rich, orange brown colour.

Several weeks of throwing are followed by biscuit firing, then glazing and the thirty hour fir-



ing. A pleasant, almost seasonal cycle of work develops. Experiments with different batches of wood ash, new glaze recipes and variations on familiar forms bring a continuity and strength as changes are slowly incorporated. My visit came after an unusually long fifteen week throwing period, extended from its usual twelve to meet extra orders.

Right from the start. Batterham has worked alone and this is an important part of his philosophy. All the pots are made by him: very rarely a young potter may come for short periods of a few weeks to observe, to help re-build the kiln, to sweep the floor and to deal with customers, but not to make pots. This, Batterham insists, must be his work as a potter: like pots from a good firing, they only achieve full maturity after a long period of maturation.

Outside, in the well maintained vegetable garden, there is the same sense of care, of attention to detail, of planning; a pleasing and rewarding cycle of growth and development. The half acre site provides a variety of vegetables, fruit, honey and eggs to last them more or less all year round.

To write of Batterham's pots is to write also of the potter. The cliché of the pots reflecting the character and outlook of their maker is non the less true. These are pots which brook no compromise, their strength of form and sense of domestic purpose celebrates the wheel thrown pot and the fired qualities of the clay itself. Simple incised patterns fluted decoration or cut sides gently articulate the shape. Each pot has its own subtle character though part of a large, closely related family. To have one leads to wanting others. In talking about pots Batterham reminded me of Bernard Leach's remark made when looking admiringly at a range of pots; firsts, seconds, thirds and rejects made in a pottery in Korea; his comment 'There's not a bad pot among them' can also be said of the pots of Richard Batterham.


Emmanuel Cooper  
July 1988.



# Y Gwylfres Gerameg

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH RHIF 28

## Richard Batterham — Crochenydd Gwlad



Photos: Keith Morris

**U**gain mlynedd yn ôl oedd y tro cyntaf i mi ymweld â Richard Batterham a gweld ei grochenydd ym mhentref Durweston yn Dorset: bryd hynny roedd y crochenydd newydd gael ei adeiladu gyferbyn â'r tŷ ac roedd yr odyn olew uchel dair siambr (gyda phedwaredd siambr ar gyfer tanio cychwynnol) yn cynhyrchu yr hyn a adwaenir bellach fel potiau Batterham nodweddiadol: hynny yw, ystod o eitemau crochenwaith caled wedi eu llunio ar y droell a'u tanio ar dymheredd uchel mewn awyrgylch ddi-aer, ar gyfer eu defnyddio yn y cartref. Llwyd-wyrdd afloyw neu led afloyw yw'r gwydreddau gan amlaf, rhai ohonynt wedi eu llunio o gyfuniadau syml o glai a lludw coed, ac yn ystod y tanio yn yr odyn maent yn dod yn rhan o arwyneb y clai yn hytrach nag yn orchudd arno. Effaith y gwydreddau tawel a diffwdan yw ychwanegu lliwiau cyn-

nil sy'n aml yn cynnwys smotiau haearn ac sy'n pwysleisio ac yn amlgu'r ffurf. Ni cheir ond y mymryn lleiaf o addurn a hynny fel rheol wedi ei ffasedu neu ei endorri.

Newidiadau cynnil a sylfaenol yn hytrach na rhai trawiadol sy'n dod i'r amlwg wrth dalu ymweliad â'r crochenydd heddiw: mae ffurfiau wedi eu caboli a rhai newydd wedi ymddangos, yn arbennig cyfres o bowlienni tal ar ffurf cwpan cymun; yn fwy nag erioed ceir ymdeimlad o ddifffuantrwydd llwyr yn y potiau eu hunain, yn y ffordd y cânt eu cynhyrchu a'u gwerthu, ac yn y pwrpas y bwriadwyd hwy ar ei gyfer. Ar yr wyneb mae'r crochenydd yn ddigon tebyg i'r oedd o'r blaen; mae pob twll a chornel yn llawn potiau, jariau mawr tair troedfedd yn aros eu tro i fynd i'r odyn, eitemau wedi eu gwydreddu yn barod i'w llifanu a'u dosbarthu, archebion yn aros i gael eu caglu ac ar y silffoedd potiau gorffenedig lle gall

cwsmeriaid gnoi eu cil arnynt wrth eu pwysau. Ond yr odyn sy'n mynnu'r prif sylw, mae ei tho crwn a'i siambrau yn esgyn yn fawreddog hyderus o ganol amrywiaeth o silffoedd odyn, propiau a holl betheuach y broses tanio ag olew. Seiliwyd yr odyn wreiddiol ar yr odyn uchel arferol o Korea yr oedd yn gyfarwydd â hi o weld yr un a godwyd gan Bernard Leach yn St. Ives yn y dauddegau; erys hynny cafodd ei ehangu ac mae pob siambr sydd tua 4" 6" o daldra a thors 6" o led ar y tu fewn, yn ddion mawr i gynnwys cynnyrch y crochenydd hynod gynhyrchiol hwn. Caiff ei thanio rhwng pedair a chwe gwaith y flwyddyn ac mae hynny'n gweddu'n burion i'r cyflymdra y mae'n gweithio arno.


Er ei bod yn amlwg ei fod yn nhraddodiad y crochenydd gwlad, nid crochenydd tradodiadol yw Batterham; mae ei gynnrych yn deillio'n amlwg o'r presennol, ac er eu bod yn adleisio ystod eang o gyfeiriadau hanesyddol,

maent yn gwbl 'fodern' eu naws ac yn adlewyrchu cymhlethdod bywyd cyfoes yn hytrach na rhamantu am ryw fywyd gwledig delfrydol. Dim ond y lleiafswm o offer a ddefnyddir ac mae Batterham yn ymroddedig i'r syniad o baratoi'r clai yn yr hen ddull gwlyb araf yn hytrach na defnyddio dyfeisiadau i arbed amser. Y gydnabyddiaeth amlycaf o fodolaeth cymorth mecanyddol yw'r felin glai drydan a'r cymysgydd trydan a'i ddefnydd o olew i danio'r odyn.

Mae ei ddull o weithio yn adlewyrchu mewn amryw agweddau y dulliau y cafodd brofiad ohonynt yn ystod y deunaw mis a dreuliodd yn brentis yng Nghrochendy Leach. Yn Ysgol Bryaston ei athro crochenwaith oedd y cerflunydd Donald Potter, ac fe'i dysgwyd i ystyried crochenwaith yn agwedd ar gerfluniaeth yn hytrach na chelfyddyd seiliedig ar grefft, ac i lunio potiau heb roi unrhyw sylw i broblemau cynhyrchu masnachol. Disodlwyd ei fwriad gwreiddiol i fod yn arddwr gan ei ddiddordeb mewn crochenwaith — "Pe bawn yn mynd yn arddwr gwyddwn mai go brin y cawn gyfle i lunio potiau: ond pe bawn yn mynd yn grochenydd gallwn fod yn arddwr da ar yr un pryd", meddai Batterham.

Yng Nghrochendy Leach, ynghyd â dau neu dri o brentisiaid eraill gan gynnwys Atusya, mab Hamada, prin iawn oedd yr hyfforddiant uniongyrchol; dysgid drwy sylwi a chymhathu; roedd ganddo eisoes beth profiad o drin y droell a bu'n llunio rhai o ffurfiau symlaf Crochenwaith Sylfaenol Leach ar yr olwyn droed ac yn cynorthwyo gyda holl waith y crochendy. Symudodd o St. Ives gyda'i wraig Dinah, a oedd hefyd yn y crochendy, i Durweston, ddwy filltir o Blandford Forum, i sefydlu ei grochendy ei hun. Cafodd saer lleol i lunio troell iddo ar gynllun y droell Siapaniaidd a aeth â'i fryd pan welai Atusya yn ei defnyddio yn St. Ives. Fel mewn troell gyfandir mae'r troed yn gweithio'r chwytlwyn, ond mae'r olwyn yn 'crogi' ar echel sefydlog a does dim cafn dŵr arni. Gan ei fod wedi dysgu trin troell gyda throedlath yn y dull Seisnig a chyd digonedd o ddŵr, roedd yn rhaid iddo ailystyried ei dechneg ac ail-ddysgu'r broses o lunio. Mae'n bosibl fod y defnydd cynnil hwn o ynni a'r defnydd cyfyngedig o glai hylif i iro'r clai wedi ei ymestyn i'w botiau; perthyn rhyw eglurder ac ehofndra syml a diffwdan i'w ffurfiau uniongyrchol ac anghymhleth. Mae'r olwyn honno sydd wedi cael cryn ofal a'i hatgyweirio'n grefftus, yn dal i gael ei defnyddio hyd heddiw, ac mae hi'n sefyll wrth ochr fersiwn lai a arferai gael ei defnyddio gan ei blant. Defnyddir estyll pren ar gyfer y potiau mwyaf a galluogir iefel y tafluy i gael ei godi ar grafanc glai i lunio bowlenni mawr llydan. Yn ystafell y droell mae dysgl fawr, tua deng modfedd ar hugain ar ei thraws, wedi ei gosod ar sillf ac yn pwysu yn erbyn y wal. 'Troffi' o fath yw hi (gan fod crac ynddi) wedi ei llunio o 35 pwys o glai — nid bach o gamp ar droell droedlath gymharol fechan, ond mae'r amgylfrediad yn glir ac mae symylrwydd ymddangosiadol ei ffurf yn ei gwneud yn ddysgl hardd. Dyma lestr yr oedd yn well gan Batterham ei gadw yn hytrach na'i werthu fel un eilradd.

Mae rhyw ymdeimlad cryf o rithm fel pe'n treiddio drwy'r gweithdy a'r llestri ac yn ymgyrraedd i fywyd y crochenydd. Cymysgir y clai, cyfuniad o ddau fath o glai graenog mân ynghyd ag ychydig o ffeldspar, yn wlyb yn y peiriant cymysgu, yna caiff ei ddodi mewn cafnau yn yr awyr agored i ddod yn fwy plastig cyn ei yrru drwy'r felin glai a'i storio. Mae'n gwella wrth gael ei gadw. Caiff clai hen ei yrru drwy'r felin yn gymysgu â'r clai newydd a bydd y gymysgedd, 'fel sieri', yn gwella'n gyson drwy'r amser. Wrth arborfi â'r eitemau porslen a ddangoswyd yn ei arddangosfa ddiweddar yn *Contemporary Applied Arts* llwyddodd i gynhyrchu ffurfiau mwy cain heb ddefnyddio sbectiau o haearn: cafodd Batterham flas ar lunio'r rhain ond nid yw hydyma wedi ymrwymo i gynhyrchu rhagor ohonynt. Er mwyn cymysgu'r porslen (mae'n mynnu na fyddai'n prynu cymysgedd parod)



byddai'n rhaid glanhau'r peiriannau'n drylwyr ac mae hynny, meddai, yn gryn orchwyl. I gynhyrchu llestri gwydredd halen, y mae wedi darparu odyn fechan arbennig ar eu cyfer, gall ddefnyddio'r clai crochenwaith caled arferol. Drwy ddefnyddio slip sy'n cynnwys haearn mae'n cynhyrchu lliw oren brown arbennig o lwyddiannus.

Dilynnir rhai wythnosau o weithio ar y droell gan y tanio cychwynnol, yna daw'r gwydreddu a'r tanio am ddeng awr ar hugain. Mae cylch dymunol, tymhorol bron, o waith yn cael ei sefydlu. Daw arbrofion gyda llwythi gwahanol o ludw coed, ffyrdd newydd o ddarparu gwydreddau ac amrywiadau ar ffurfiau cyfarwydd â chryfder a pharhad fel y bydd newidiadau yn graddol ennill eu plwyf. Digwyddodd fy ymweliad i ar deryn pymtheg wythnos o weithio ar y droell, cyfnod anghyffredin o faith a oedd wedi ei ymestyn o'r deuddeg wythnos arferol er mwyn dod i ben ag archebion ychwanegol.

O'r cychwyn cyntaf mae Batterham wedi gweithio ar ei ben ei hun ac mae hynny'n rhan bwysig o'i athroniaeth. Ef ei hun sy'n llunio pob un o'r potiau: yn achlysurol iawn daw crochenydd ifanc am gyfnod byr o ychydig wythnosau i wyllo'r hyn sy'n digwydd, i roi help llaw i ail-godi'r odyn, i ysgubo'r llawr ac i ddelio â chwsmeriaid, ond nid i lunio llestri. Mae Batterham yn mynnu mai ei waith ef fel crochenydd yw hynny: fel potiau yn dilyn tanio llwyddiannus, dim ond ar ôl cyfnod hir y mae crochenyddion yn dod yn gwbl aeddfed.

Y tu allan yn yr ardd lysiau dwt, ceir yr un ymdeimlad o ofal, o bwyslais ar fanylion ac o

gynllunio; cylch hyfryd a buddiol o dwf a datblygiad. Mae'r safle hanner erw yn cynhyrchu amrywiaeth o lysiau, ffrwythau, mêl a wyau i ddi-goni'r teulu drwy'r flwyddyn fwy neu lai.

Mae ysgrifennu am botiau Batterham yn gyfystyr ag ysgrifennu am y crochenydd hefyd. Mae'r ystrydeb am botiau yn adlewyrchu cymeriad ac agwedd feddyliol y sawl a'u lluniodd yn dal yn wir. Potiau yw'r rhain sy'n gwrthod unrhyw gyfaddawd, mae cryfder eu ffurf a'r ymdeimlad o bwrpas domestig yn mawrygu'r pot a luniwyd ar droell ac ansawdd y clai a daniwyd. Mae patrymau syml wedi eu hendorri, addurniadau rhychog neu ochrau wedi eu trimio yn pwysleisio'r ffurf yn gynnil. Mae gan bob pot ei gymeriad cynnil ei hun er ei fod ar yr un pryd yn rhan o deulu mawr agos. O feddiannu un mae'r awydd am ragor yn cryfhau. Wrth drafod potiau fe'm hatgoffwyd gan Batterham o sylw Bernard Leach pan oedd yn edmydu casgliad o botiau, rhai perffaith, rhai eilradd, rhai gwrthodedig, a oedd wedi eu llunio mewn crochendy yn Korea: gellir cymhwyso'r sylw hwnnw, 'Does dim un gwael yn eu plith', at botiau Richard Batterham hefyd.

Emmanuel Cooper  
Gorffennaf 1988.